AROLYGIAETH

GWASANAETH

ERLYN Y

GORON

# ADRODDIAD YR AROLYGIAETH

ar

# GANGEN GOGLEDD CYMRU


o


# CPS CYMRU

ADRODDIAD CANGEN 22/98 HYDREF 1998

CPS

# Cangen Gogledd Cymru





**SWYDDFA'R GANGEN**
◆ Bae Colwyn

**SWYDDFEYDD IS-GANGHENNAU**
Bangor
Wrecsam

**LLYSOEDD A GWMPESIR**

**Llysoedd Ynadon**
Aberconwy (Llandudno)
Bangor
Berwyn (Corwen)
Caernarfon and Gwyrfai (Caernarfon)
Colwyn (Abergele)
Dyffryn Clwyd (Dinbych)
Eifionydd and Phwllheli (Pwllheli)
Sir y Fflint (y Fflint a'r Wyddgrug)
Meirionnydd (Dolgellau)
Rhuddlan (Prestatyn)
Wrecsam Maelor (Wrecsam)
Ynys Môn (Caergybi a Llangefni)

**Llys y Goron**
Caernarfon
Yr Wyddgrug

**Crown Prosecution Service Inspectorate, 50 Ludgate Hill, London EC4M 7EX**
Cynlluniwyd a chynhyrchwyd gan Publications & Design, CPS Communications Branch CPS Headquarters,
50 Ludgate Hill, London EC4M 7EX  Swyddfa Llundain: 0171 273 8117.

# ADRODDIAD AR AROLYGIAD CANGEN GOGLEDD CYMRU CPS

## CYNNWYS


| | Paragraff |
|---|---|
| **CYFLWYNIAD** | 1.1 |
| **CASGLIADAU AC ARGYMHELLION** | 2.1 |
| **YR AROLYGIAD** | 3.1 |
| **Darparu cyngor** | |
| Maint y ceisiadau am gyngor a chyngor dros y ffôn | 4.1 |
| Priodoldeb y ceisiadau am gyngor | 4.5 |
| Ansawdd a phrydlondeb cyngor | 4.7 |
| Cyngor gan y bargyfreithiwr | 4.13 |
| **Adolygu achosion** | |
| Ansawdd penderfyniadau arolwg | 5.1 |
| Prydlondeb yr arolwg | 5.4 |
| Terfynu | 5.7 |
| Dethol y cyhuddiad a'r safonau cyhuddo priodol | 5.21 |
| Achosion sy'n ymwneud â throseddau rhywiol | 5.25 |
| Rhyddfarnau a orchmynnwyd ac a gyfarwyddwyd gan y barnwr | 5.31 |
| Achosion a gollwyd yn y llysoedd ynadon oherwydd y cyflwynwyd dim achos i'w ateb a thraddodebau a ryddhewyd | 5.34 |
| Dangosyddion perfformiad | 5.36 |
| Dull treial | 5.41 |
| Mechnïaeth | 5.42 |
| Arnodiadau arolwg | 5.45 |
| Dysgu o brofiad | 5.48 |
| **Paratoi achosion** | |
| Gwybodaeth ymlaen llaw | 6.1 |
| Deunydd nas defnyddiwyd a deunydd o natur sensitif | 6.5 |
| Terfynau amser yn y ddalfa | 6.10 |
| Paratoi treialon diannod | 6.20 |
| Paratoi traddodebau | 6.29 |
| Ansawdd ditiadiau | 6.37 |
| Y CPS yn Llys y Goron | 6.40 |
| Arnodiadau ffeiliau | 6.46 |
| **Cyflwyno achosion yn y llys** | 7.1 |
| **Y Gangen ac asiantaethau eraill** | 8.1 |
| **YSTADEGAU ALLWEDDOL** | 9.1 |
| **YMGYNGHORI ALLANOL** | 10.1 |

**ATODIAD 1:** Siartiau a thablau
**ATODIAD 2**: Rhestr o gynrychiolwyr lleol asiantaethau cyfiawnder troseddol a fu'n cynorthwyo yn ein harolygiad
**ATODIAD 3:** Datganiad o Bwrpas ac Amcanion Arolygiaeth y CPS

# CYFLWYNIAD

1.1 Dyma adroddiad Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron am ansawdd y gwaith achos yng Nghangen Gogledd Cymru CPS Cymru.

1.2 Mae penderfyniad gwaith achos da yn un sy'n golygu y caiff y diffynnydd cywir ei gyhuddo â'r drosedd gywir yn haen gywir y llys ar yr adeg gywir, a thrwy hynny yn galluogi i'r penderfyniad cywir gael ei wneud gan y llys. Rhaid hefyd i'r penderfyniad gael ei gymryd ar y lefel gywir o fewn Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a chael ei erlyn gan yr erlynydd cywir.

1.3 Nodir pwrpas ac amcanion yr Arolygiaeth ar du mewn clawr ôl yr adroddiad hwn. Mae'r broses arolygu yn canolbwyntio ar fusnes craidd y Gwasanaeth: darparu cyngor; adolygu achosion; paratoi achosion; a chyflwyno achosion yn y llys.

1.4 Mae Cangen Gogledd Cymru yn Ardal CPS Cymru ac mae ei swyddfeydd ym Mae Colwyn, gydag is-swyddfeydd ym Mangor a Wrecsam. Ar 20 Gorffennaf 1998, cyflogwyd 63.6 o staff ganddi (Erlynydd y Goron yn y Gangen (BCP) a 28.1 o erlynwyr eraill; 1.6 o reolwyr gweithwyr achos a 23.2 o weithwyr achos eraill; Rheolwr Swyddfa'r Gangen; ac 8.7 o deipwyr a staff cynnal eraill).

1.5 Mae'r Gangen yn cynnwys pedwar tîm. Tîm Colwyn (8.5 o erlynwyr ac 8 o weithwyr achos) sy'n gyfrifol am erlyniadau yn y llysoedd ynadon yn Abergele, Dinbych, Llandudno a Phrestatyn. Tîm Bangor (6.8 o erlynwyr a 5.6 o weithwyr achos) sy'n gyfrifol am erlyniadau yn llysoedd ynadon Bangor, Caernarfon, Dolgellau, Pwllheli, Caergybi a Llangefni. Tîm Sir y Fflint, sydd wedi'i leoli yn Wrecsam (5,6 o erlynwyr a 4.6 o weithwyr achos) sy'n gyfrifol am erlyniadau yn llysoedd ynadon Y Fflint a'r Wyddgrug. Tîm Wrecsam (7.2 o erlynwyr a 5 o weithwyr achos) sy'n gyfrifol am erlyniadau yn llysoedd ynadon Corwen a Wrecsam. Mae pob tîm hefyd yn gyfrifol am achosion Llys y Goron sy'n deillio o'i lysoedd ynadon.

1.6 Ymwelodd y tîm o dri arolygydd â'r Gangen rhwng 20 Gorffennaf a 31 Gorffennaf 1998. Yn ystod y cyfnod hwn, arsylwyd 11 o eiriolwyr CPS gennym yn y llysoedd ynadon yn Abergele, Bangor, Llandudno, yr Wyddgrug, Prestatyn a Wrecsam, a gwelwyd erlynydd Cangen yn gwrthwynebu ceisiadau am fechnïaeth yn Llys y Goron yr Wyddgrug. Arsylwyd hefyd weithwyr achos CPS a'r bargyfreithiwr dros yr erlyniad yn Llys y Goron yr Wyddgrug.

# CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

2.1 Ffurfiwyd y Gangen ym mis Ebrill 1998 drwy uno hen Gangen Eryri â swyddfa Wrecsam hen Gangen y Gororau. Mae tair swyddfa. Mae un tîm yr un yn swyddfeydd Bangor a Bae Colwyn; mae dau dîm yn swyddfa Wrecsam. Mae'r BCP yn rheoli'r Gangen o swyddfeydd Bae Colwyn a Wrecsam.

2.2 Er bod Bangor tua 70 milltir o Wrecsam, mae'r cysylltiadau ffordd yn dda ac mae'r erlynwyr ymhob lleoliad yn cynorthwyo eu cydweithwyr yn y swyddfeydd eraill o bryd i'w gilydd. Caiff y Gangen a'r swyddfeydd unigol eu rheoli'n dda. Mae Arweinwyr Timau Erlyn (PTLs) yn cadw mewn cysylltiad agos gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill.

2.3 Mae'r staff ymhob swyddfa yn brofiadol. Mae ganddynt agwedd broffesiynol tuag at eu gwaith ac mae cynrychiolwyr lleol asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill yn dangos parch tuag atynt. Mae cyfathrebu effeithiol rhwng erlynwyr a gweithwyr achos yn sicrhau y caiff achosion eu rheoli'n dda. Roedd y rhan fwyaf o'r ffeiliau a archwiliwyd gennym yn cynnwys tystiolaeth yn dangos bod y materion wedi'u hadolygu a'u hystyried yn drwyadl ymhob cam. Cyflwyna erlynwyr y gangen achosion yn fedrus yn y llys.

2.4 Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar berfformiad, lle gellid gwneud gwelliannau. Er mwyn cynorthwyo'r Gangen, argymhellwn y canlynol:

i dylai'r BCP gyflwyno system i sicrhau yr atodir cofnod o gyngor anffurfiol a roddir i'r heddlu i unrhyw ffeil erlyn ddilynol (paragraff 4.4);

ii dylai'r BCP sicrhau bod erlynwyr yn nodi cyn gynted â phosibl yr achosion hynny y dylid eu terfynu, ac y cymerir camau i'w terfynu cyn gynted â phosibl (paragraff 5.17);

iii dylai'r BCP sicrhau bod erlynwyr yn dangos annibyniaeth dyfarniad ymhob penderfyniad gwaith achos (paragraff 5.20);

iv dylai'r BCP sicrhau y cymhwysir y profion tystiolaethol a'r profion budd y cyhoedd yng Nghod Erlynwyr y Goron (y Cod) yn gyson gan erlynwyr wrth adolygu honiadau o droseddau rhywiol (paragraff 5.30);

v dylai'r BCP sicrhau y cofnodir gwybodaeth gwaith achos yn gywir yn y Dangosyddion Perfformiad (PIs), er mwyn i reolwyr y Canghennau feddu ar wybodaeth gywir i'w galluogi i fynd i'r afael â materion gwaith achos (paragraff 5.40);

vi dylai'r BCP sicrhau bod erlynwyr yn arnodi pob ffeil â manylion y ffactorau tystiolaethol a'r ffactorau budd y cyhoedd a ystyriwyd ym mhenderfyniad yr arolwg ac, mewn achosion priodol, ystyriaethau sy'n effeithio ar ddull y treial (paragraff 5.47);

vii dylai'r BCP sicrhau bod dadansoddiad misol o'r achosion a fethodd yn Llys y Goron ar gael i bob erlynydd a gweithiwr achos, fel y gellir dysgu'r gwersi gwaith achos priodol (paragraff 5.51):

viii dylai'r BCP gymryd camau brys i fynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â rhwymedigaeth yr heddlu i ddatgelu'r holl ddeunydd perthnasol nas defnyddiwyd, drwy drafod materion gweithredol â'r heddlu a, lle y bo'n briodol, drwy gynnal mentrau hyfforddi ar y cyd (paragraff 6.9);

ix dylai'r BCP sicrhau bod pob aelod o staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y rheoliadau terfyn amser yn y ddalfa a'r gweithdrefnau terfyn amser yn nalfa'r Gangen, drwy ddarparu hyfforddiant priodol, a ddylai hefyd atgyfnerthu'r safon genedlaethol parthed arnodiadau ffeiliau cysylltiedig (paragraff 6.19);

x dylai'r BCP gymryd camau, mewn cydweithrediad â defnyddwyr eraill y llys, i sicrhau bod arolygon cyn treial (PTRs) yn effeithiol, drwy sefydlu ymagwedd gyson lle caiff y materion treial eu harchwilio'n llawn gan bob parti (paragraff 6.28);

xi dylai'r BCP gymryd camau i wella ansawdd cyfarwyddiadau i'r bargyfreithiwr, drwy:

- sicrhau eu bod yn cynnwys crynodeb digonol o honiadau a materion yr achos, gan gynnwys derbynioldeb pledion; a
- sicrhau y cânt eu gwirio cyn eu cyflwyno i'r bargyfreithiwr (paragraff 6.36);

xii dylai'r BCP geisio gwella canran yr achosion lle bydd y bargyfreithiwr a gyfarwyddwyd yn wreiddiol yn mynychu'r PDH a'r treial (paragraff 7.3).

## YR AROLYGIAD

3.1 Yn y flwyddyn hyd 30 Mehefin 1998, ymdriniodd y Gangen ag 16,647 o ddiffynyddion yn y llysoedd ynadon ac 1,157 o ddiffynyddion yn Llys y Goron. Mewn 1,026 o achosion pellach, rhoddwyd cyngor i'r heddlu cyn cyhuddo.

3.2 Archwiliodd y tîm arolygu gyfanswm o 221 o achosion, gan amrywio o'r rheini pan gyfarwyddwyd rhyddfarn gan y barnwr, drwy'r rheini pan derfynwyd y gweithrediadau gan yr erlyniad, i'r rheini pan blediodd y diffynnydd yn euog. Cynhaliodd y tîm gyfweliadau gydag aelodau o staff y Gangen a chynrychiolwyr lleol asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd penderfyniadau gwaith achos a gymerir

yn y Gangen neu yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ganddynt. Ceir rhestr o'r cynrychiolwyr hynny y derbyniasom sylwadau ganddynt ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## DARPARU CYNGOR

### Nifer y ceisiadau am gyngor a chyngor dros y ffôn

4.1 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 1998, roedd achosion cyngor yn cynrychioli 5.8% o faich achos y Gangen, o'i gymharu â 4.1% yn genedlaethol. Dengys PIs y Gangen gynnydd amlwg yn nifer yr achosion cyngor ers dechrau 1998, gyda'r ffigurau ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 1998 ddau draean yn uwch na'r ffigurau cyfatebol ar gyfer yr un chwarter ym 1997.

4.2 Yr esboniad mwyaf tebygol dros y cynnydd yw mabwysiadu'n ddiweddar system gywirach ar gyfer cofnodi cyngor a roddir dros y ffôn. Bellach mae'n ofynnol i erlynwyr nodi manylion pob darn o gyngor a roddir dros y ffôn ar ffurflen a gaiff ei ffeilio mewn cofrestr. Bob mis, mae gweithiwr achos tîm yn cyfrif y ffurflenni a gwblhawyd y mis hwnnw ac yn nodi'r ffigurau yn y PIs. Erys y ffurflenni unigol yn y gofrestr.

4.3 Mae'r Gangen yn dibynnu ar yr heddlu i gyfeirio at y cyngor ac enwi'r erlynydd a'i darparodd, wrth gyflwyno unrhyw ffeil erlyn gysylltiedig. Yna fe'i dyrennir i'r un erlynydd. Ni ddefnyddir copi'r Gangen o'r cyngor. Fodd bynnag, cyfyd adegau pan na fydd yr heddlu'n cyfeirio at yr erlynydd, a dyrennir y ffeil i erlynydd gwahanol. Dywedwyd wrthym am o leiaf un achos pan gynigiodd un erlynydd derfynu achos lle roedd erlynydd arall wedi cynghori gweithrediadau.

**4.4 Rydym yn argymell y dylai'r BCP gyflwyno system i sicrhau yr atodir cofnod o gyngor anffurfiol a roddir i'r heddlu i unrhyw ffeil erlyniad ddilynol.**

### Priodoldeb y ceisiadau am gyngor

4.5 Beth amser yn ôl, cytunodd Heddlu Gogledd Cymru a'r Gangen ar gytundeb lefel gwasanaeth, yn nodi'r mathau o achosion i'w cyflwyno am gyngor. Ymhlith y categorïau mae:

- damweiniau car angheuol;
- achosion o gynllwynio neu geisio gwyrdroi cwrs cyfiawnder;
- achosion o gam-drin plant; ac
- achosion sy'n ymwneud â materion cymhleth eraill.

4.6 Teimla'r heddlu ac erlynwyr y Gangen y bu'r canllawiau yn gyffredinol yn effeithiol wrth sicrhau mai dim ond achosion priodol a gyflwynir am gyngor, er y dywedwyd wrthym i rai achosion gael eu cyflwyno y gallai'r heddlu fod wedi gwneud y penderfyniad amdanynt. Archwiliwyd deg o achosion cyngor gennym a'n barn oedd bod pob un yn briodol ar gyfer cyngor.

### Ansawdd a phrydlondeb cyngor

4.7 Cytunwyd â'r cyngor a ddarparwyd ymhob un o'r deg achos a archwiliwyd gennym. Roedd y cyngor wedi'i deipio, wedi'i osod allan yn dda ac yn mynd i'r afael â'r achosion perthnasol.

4.8 Mae PTLs yn dyrannu achosion cyngor i erlynwyr unigol sy'n ymdrin â'r llys y digwyddodd y troseddau honedig ynddo. Mae'r broses ddyrannu bob amser yn ystyried profiad, unrhyw arbenigedd arbennig a baich gwaith yr erlynydd dan sylw. Cyflwynir ffeiliau sy'n ymwneud â damweiniau ffordd angheuol i'r BCP, sy'n ymdrin â rhai ohonynt, ond mae'n dyrannu eraill i erlynwyr yn y tîm perthnasol. Dychwelir y cyngor drwy'r BCP, sy'n monitro ei ansawdd.

4.9 Mae PTLs hefyd yn monitro ansawdd y cyngor. Mae rhai yn gwirio sampl o achosion pob erlynydd. Mae eraill yn sicrhau eu bod yn gweld pob ffeil gyngor cyn iddi gael ei dychwelyd at yr heddlu.

4.10 Mae'r heddlu yn gwerthfawrogi'r cyngor (gan gynnwys cyngor anffurfiol) a roddir gan erlynwyr y Gangen. Mae gweithdrefn ar gyfer datrys gwahaniaeth barn rhwng yr heddlu a'r Gangen, ond prin, os o gwbl, y mae ei hangen.

4.11 Darparwyd cyngor o fewn terfyn amser targed y CPS sef 14 diwrnod mewn saith o'r deg o'r achosion a archwiliwyd gennym; yn wir, mewn un achos, fe'i darparwyd y diwrnod ar ôl i'r ffeil gael ei chyflwyno. O'r tri achos yn weddill, rhoddwyd cyngor dau ddiwrnod yn hwyr mewn un ohonynt. Mewn un arall, roedd yr oedi o bythefnos yn ganlyniad i'r ffaith fod y Gangen yn aros am wybodaeth bellach gan drydydd parti, cyn y gellid gwneud penderfyniad terfynol. Yn y trydydd achos, nid oedd unrhyw reswm amlwg dros yr oedi o wythnos.

4.12 Mae PTLs yn gosod dyddiad targed i erlynydd penodol ddychwelyd ffeil atynt, er mwyn sicrhau y dychwelir y ffeil yn brydlon. Mae un tîm hefyd yn defnyddio adroddiadau wedi'u cynhyrchu gan SCOPE, system tracio achosion y Gangen.

### Cyngor gan y bargyfreithiwr

4.13 Anaml y gofynnir i'r bargyfreithiwr am gyngor cyn cyhuddo. Roedd un enghraifft ddiweddar yn ymwneud ag achos tystiolaethol gymhleth lle y bu plentyn farw mewn tân. Mewn ychydig o achosion, gofynnir i'r bargyfreithiwr am gyngor ar ôl i achos gael ei draddodi i dreial, er bod yn rhaid i'r PTL awdurdodi unrhyw gais. Gwelwyd un enghraifft o'r bargyfreithiwr yn rhoi cyngor digymell ac o ganlyniad cafwyd gafael ar dystiolaeth bellach. Mae'r PTL yn gwirio cyngor o'r fath ac yn penderfynu a yw'n haeddu tâl.

## ADOLYGU ACHOSION

### Ansawdd penderfyniadau arolwg

5.1 O dan Ddeddf Erlyn Troseddau 1985, mae'n ofynnol i'r CPS adolygu pob achos y mae'n ymdrin ag ef yn unol â'r Cod. Rhaid iddo gadarnhau a oes tystiolaeth ddigonol i arwain at gollfarn realistig, ac a fydd erlyn y mater er budd i'r cyhoedd.

5.2 Yn gyffredinol rheolir yr achosion yn dda ac mae'r ffeiliau yn cynnwys tystiolaeth sy'n dangos y caiff materion eu hystyried mewn cryn fanylder, yn y cam adolygu cychwynnol ac mewn camau diweddarach. Arolygwyd ansawdd penderfyniad arolwg mewn 81 o achosion, yn cwmpasu achosion yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron. Anghytunwyd â'r penderfyniad ar y prawf tystiolaethol yn y Cod mewn pedwar ohonynt. Roedd tri achos yn ymwneud â throseddau rhywiol ac fe'u trafodir yn ddiweddarach ym mharagraffau 5.25-5.30. Roedd y pedwerydd achos yn ymwneud â honiad o ymosodiad, lle roedd yr unig dystiolaeth annibynnol yn ymwneud â diwedd y digwyddiad gan ategu fersiwn y diffynnydd o'r digwyddiadau. Yn Llys y Goron, cymerodd y rheithgor 20 munud i ryddfarnu'r diffynnydd.

5.3 Cytunwyd â chymhwyso'r prawf budd y cyhoedd ymhob un o'r 82 o achosion a archwiliwyd gennym.

### Prydlondeb yr arolwg

5.4 Mae'r heddlu a rheolwyr y Gangen yn monitro ansawdd a chyflwyno prydlon ffeiliau drwy Reoli Perfformiad ar y Cyd (JPM). Yn y chwarter a ddaeth i ben 31 Mawrth 1998, cyflwynwyd 63.7% o ffeiliau, a oedd o leiaf yn ddigonol i ddwyn achos ymlaen, gan yr heddlu o fewn canllawiau cytunedig. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau rhanbarthol amlwg.

5.5 Dengys ffigurau'r Gangen ar gyfer y tri mis a ddaeth i ben 30 Mehefin 1998 yr adolygwyd 77.2% o ffeiliau o fewn saith diwrnod i'w derbyn gan yr heddlu. Os nad arolygir y ffeil cyn mynd i'r llys, bydd yr erlynydd yn ei hadolygu fel rhan o'r broses baratoi ar gyfer y llys ac yn paratoi gwybodaeth ymlaen llaw i'w defnyddio yn y llys. Os bydd ffeil yn arbennig o gymhleth, efallai y caiff ei gohirio ar gyfer arolwg, yn arbennig os nad yr eiriolwr yw'r erlynydd a bennwyd.

5.6 Yn ystod y misoedd diweddar, cyflwynwyd cynlluniau yn Llysoedd Ynadon Wrecsam, Y Fflint, Llangefni a Chaergybi. Fe'u cynlluniwyd i sicrhau gwaredu achosion syml lle bydd yr amddiffynnydd yn debygol o bledio'n euog. Bydd yr heddlu yn mechnïo diffynyddion sydd wedi'u cyhuddo o droseddau diannod neu naill ffordd penodol i ymddangos yn y llys o fewn pum diwrnod gwaith. Darpara'r heddlu ffeil wedi'i thalfyrru i'r Gangen, ynghyd â chopi arall o'r papurau perthnasol i'w

cyflwyno i'r amddiffyniad fel gwybodaeth ymlaen llaw. Mae'r cynlluniau'n cael eu monitro, a'r bwriad yw eu cyflwyno ymhob llys yng Ngogledd Cymru maes o law. Dengys arwyddion cynnar rywfaint o lwyddiant. Plediodd saith deg y cant o ddiffynyddion yng nghynlluniau Llangefni a Chaergybi yn euog yn y gwrandawiad cyntaf.

### Terfynu

5.7 Mae'r gyfradd terfynu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 1998 ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (11% o'i chymharu â 12%), ac mae wedi gostwng yn raddol o 13% ar ddiwedd Mehefin 1997. Cyfeiriwn ym mharagraff 5.36 at wallau amlwg wrth gofnodi PIs, sy'n ein harwain at y casgliad fod y gyfradd, mewn gwirionedd, yn is fyth.

5.8 Archwiliwyd 82 o achosion gennym a ataliwyd gan yr erlyniad yn y llysoedd ynadon, er mwyn canfod y rhesymau dros derfynu, a dod o hyd i p'un a ymgynghorwyd â'r heddlu, a ph'un a oedd yr heddlu yn cytuno â'r penderfyniad. Terfynwyd tri deg a dau o achosion (39%) yn ffurfiol; tynnwyd 27 (32.9%) ohonynt yn ôl yn y llys; ac ni chynigiwyd unrhyw dystiolaeth mewn 32 o achosion (28%). Dywedwyd wrthym fod erlynwyr yn rhoi esboniad pan gaiff gweithrediadau eu diddymu yn y llys.

5.9 Terfynwyd dau ddeg chwech o achosion o ganlyniad i dystiolaeth annigonol (31.7%). Rhoddwyd y gorau i ddau ddeg pump o achosion (30.5%) ar sail budd y cyhoedd. Ni lwyddodd yr erlyniad i ddwyn achos ymlaen mewn 20 o achosion (24.4%); a therfynwyd saith (8.5%) oherwydd i'r dogfennau gyrru perthnasol gael eu cynhyrchu. Nid oedd y rheswm dros derfynu yn glir yn y pedwar achos oedd yn weddill (4.9%).

5.10 Mewn perthynas â'r 26 o achosion a derfynwyd o ganlyniad i dystiolaeth annigonol, roedd y diffyg yn ymwneud â nodi tystiolaeth mewn pump, a thystiolaeth arall mewn 17. Roedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll mewn pedwar achos.

5.11 O'r 25 o achosion a derfynwyd ar sail budd y cyhoedd, roedd cosb nominal yn debygol mewn naw ohonynt, fel arfer am fod y diffynnydd eisoes yn bwrw dedfryd o garchar. Roedd rhybudd yn fwy priodol mewn deg achos, ac roedd y diffynnydd wedi'i ddedfrydu ar faterion eraill mewn dau. Roedd yr achosion oedd yn weddill yn ymwneud ag iechyd y diffynnydd, neu'r ffaith fod y golled neu'r difrod wedi cael ei unioni.

5.12 Rhoddwyd y gorau i un ar bymtheg o'r 20 o achosion pan na lwyddodd yr erlyniad i fynd yn eu blaenau oherwydd i dystion wrthod neu fethu â rhoi tystiolaeth. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn gwynion am ymosodiad mewn achosion trais yn y cartref.

5.13 Ymgynghorwyd â'r heddlu mewn 64 o achosion, cyn belled ag yr oeddem yn gallu canfod, ac roeddent yn cytuno â'r penderfyniad i'w terfynu oll. Datryswyd gwrthwynebiadau cychwynnol i derfynu tri achos yn dilyn trafodaethau pellach. Rhoddwyd y gorau i weithrediadau o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y llys yn y 18 achos a oedd yn weddill. Er na fydd hyn yn caniatáu amser ar gyfer ymgynghori ymlaen llaw, bydd yr erlynydd yn ceisio ymgynghori â'r heddlu dros y ffôn, pryd bynnag y bo'n bosibl.

5.14 Archwiliwyd deg achos yn fanylach, er mwyn pennu p'un a gymhwyswyd profion y Cod yn gywir, a chytunwyd â'r penderfyniad mewn naw ohonynt. Roeddem yn pryderu am y penderfyniad mewn un achos. Cyhuddwyd person ifanc o geisio treisio merch ifanc iawn. Gwadodd y diffynnydd yr honiad. Cynghorodd yr erlynydd weithrediadau ar gyfer ymgais i dreisio, ond nododd y byddai ple o euog i ymosodiad anweddus yn dderbyniol, er mwyn osgoi i'r achwynydd orfod rhoi tystiolaeth yn Llys y Goron. Fodd bynnag, terfynwyd yr achos yn y pen draw, ar ôl i'r diffynnydd gael ei rybuddio - gweithdrefn sy'n gofyn am gydnabyddiaeth o euogrwydd. Roedd yr unig gofnod o ddigwyddiadau wedi'i gynnwys mewn tri nodyn bach wedi'u hatodi'n ddiofal o fewn y ffeil.

5.15 Er nad yw'r sefyllfa yn glir, rydym yn pryderu'n fawr bod y diffynnydd wedi'i rybuddio am drosedd mor ddifrifol, ac yng ngoleuni ei wadiad gwreiddiol.

5.16 Gallai'r pump achos a archwiliwyd gennym fod wedi eu terfynu'n gynharach. Yn yr enghraifft fwyaf eithriadol, terfynwyd yr achos pan gafodd y

diffynnydd ei rybuddio bedwar mis ar ôl i'r cynnig gwreiddiol gan yr amddiffyniad gael ei wneud a'i wrthod. Newidiodd barn yr erlynydd ar ryw adeg ar ôl i'r diffynnydd bledio'n ddieuog ac i dreial gael ei drefnu. Terfynwyd dau achos arall ar ôl i'r diffynyddion bledio'n ddieuog, er y nodwyd y rhesymau dros derfynu pan gyflwynwyd y ffeiliau am y tro cyntaf. Mewn achos arall, cynigiodd yr erlynydd derfynu mewn cam cynnar, ond cytunodd i ddwyn achos ymlaen ar ôl derbyn sylwadau gan yr heddlu. Pan ddewisodd y diffynnydd gael ei dreialu yn Llys y Goron, cymerwyd safbwynt mwy cadarn, a therfynwyd yr achos dri mis ar ôl i'r ffeil gael ei hadolygu am y tro cyntaf.

**5.17 Rydym yn argymell y dylai'r BCP sicrhau bod erlynwyr yn nodi cyn gynted â phosibl yr achosion hynny y dylid eu terfynu, ac y cymerir camau i'w terfynu cyn gynted â phosibl.**

5.18 O'n harchwiliad o'r holl ffeiliau hyn a derfynwyd, mae gennym rai pryderon na wneir penderfyniadau erlynwyr bob amser yn annibynnol. Yn ogystal â'r enghreifftiau a nodir eisoes, archwiliwyd un achos gennym (y tu allan i'r sampl o achosion wedi'u terfynu) pan gynigiodd yr erlynydd derfynu. Roedd y ffeil yn cynnwys nodyn a oedd yn cyfeirio at y cynnig ac a oedd yn darllen: "Os bydd gan yr heddlu farn arbennig o gryf y dylem barhau yna fe rown gynnig arni". Mewn achos arall o fewn y sampl a derfynwyd, o ganlyniad i ymateb yr heddlu i'r terfynu arfaethedig arhosodd yr erlynydd i weld o a fyddai'r diffynnydd yn pledio'n euog. Ar ôl ple o ddieuog, ymgynghorwyd â'r heddlu unwaith eto gan erlynydd uwch, a therfynwyd yr achos. Rhagwelwyd ymateb anodd yn amlwg mewn achos arall. Nododd nodyn ar y ffeil y byddai erlynydd uwch yn siarad â'r heddlu, petaent yn gwrthwynebu'r camau gweithredu arfaethedig.

5.19 Mae'n bwysig y dylai'r heddlu gael cyfle i gyflwyno sylwadau ar gynigion i derfynu achosion. Mae'r un mor bwysig i erlynwyr arfer annibynniaeth dyfarniad wrth weithredu eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Erlyn Troseddau 1985. Nid yw'r enghreifftiau y cyfeirir atynt yn y paragraff blaenorol yn nodweddiadol o safon gyffredinol y broses gwneud penderfyniadau a gynrychiolir gan y ffeiliau a archwiliwyd gennym. Fodd bynnag, maent yn amlygu pryder y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef.

**5.20 Rydym yn argymell y dylai'r BCP sicrhau bod erlynwyr yn dangos annibyniaeth dyfarniad ymhob penderfyniad gwaith achos.**

### Dethol y cyhuddiad a'r safonau cyhuddo priodol

5.21 Roedd angen newid cyhuddiadau gwreiddiol yr heddlu mewn 23 o'r 81 o achosion (28.4%) a archwiliwyd gennym. Roedd angen chwe newid i gydymffurfio â safon gyhuddo; newidiwyd pump oherwydd mân wallau arwynebol; nid oedd y cyhuddiadau'n adlewyrchu'r troseddu mewn pum achos pellach; ac roedd newidiadau yn y gweddill yn ymwneud â nifer neu lefel y cyhuddiadau. Gwnaed newidiadau yn ystod yr arolwg cychwynnol mewn 17 o achosion.

5.22 Mae'r CPS a'r heddlu yn genedlaethol wedi cytuno ar safonau cyhuddo ar gyfer ymosodiadau, troseddau trefn gyhoeddus a rhai troseddau moduro, er mwyn sicrhau ymagwedd gyson tuag at lefelau cyhuddo. Cymhwysodd erlynwyr y safon gyhuddo briodol yn gywir mewn 30 allan o'r 32 o achosion perthnasol (93.8%) a archwiliwyd gennym. Roedd un o'r ddau eithriad yn ymwneud â chyhuddiad o ymosod gan achosi niwed corfforol gwirioneddol, ond ymosodiad cyffredin oedd y cyhuddiad priodol. Yn yr achos arall, newidiodd yr erlynydd y cyhuddiad gwreiddiol o anafu gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol gwirioneddol i gyhuddiad o anafu. Yn ein barn ni, roedd tystiolaeth ddigonol i ddangos bwriad i achosi anaf difrifol.

5.23 Ystyriodd cynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill nad oedd rhai ymosodiadau difrifol wedi eu cyhuddo'n gywir. Teimlasant fod gormod o lynu at natur yr anaf, a bod ffactorau gwaethygu eraill, megis cicio rhywun ar lawr, yn cael eu hanwybyddu'n aml. Fodd bynnag, teimlai llysoedd eu bod yn gallu adlewyrchu amgylchiadau'r troseddu wrth ddedfrydu.

5.24 Dywedwyd wrthym hefyd am rai o'r anghysondebau amlwg wrth gyhuddo, ac o ddryswch a achoswyd gan arfer o ddwyn achos am ymosodiadau a throseddau Deddf Trefn Gyhoeddus yn deillio o'r un amgylchiadau. Gwelwyd enghraifft o hyn yn y llys. Tynnodd yr erlynydd gyhuddiad o affrae a oedd yn cwmpasu'r un ffeithiau â dau gyhuddiad o ymosod, y plediodd y diffynnydd yn euog iddynt, yn ôl. Fodd bynnag, nid yw achosion o'r fath yn digwydd yn aml.

## Achosion sy'n ymwneud â throseddau rhywiol

5.25 Mynegwyd pryder gan gynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill bod rhai troseddau rhywiol yn cael eu herlyn pan nad oedd tystiolaeth ddigonol. Roedd tri o'r achosion nad oeddem yn cytuno â'r penderfyniad ar sail tystiolaethol (paragraff 5.2) yn ymwneud â honiadau o droseddau rhywiol a materion cyffelyb a godwyd.

5.26 Ymhob achos, roedd y dystiolaeth yn erbyn yr un a gyhuddwyd yn wan, naill ai am fod tystion yn rhoi fersiynau anghyson o'r hyn a ddigwyddodd, neu am fod yr achwynydd yn rhoi fersiynau gwrthgyferbyniol o'r digwyddiadau. Mewn un achos, cydnabu'r heddlu, o'r cychwyn cyntaf, nad oedd tystiolaeth ddigonol i ddwyn yr achos ymlaen. Mewn dau achos, cynghorodd y bargyfreithiwr nad oedd gobaith realistig am gollfarn, ac, yn wir, mewn un, cytunodd erlynydd y Gangen, gan nodi er "nad hwn oedd y cryfaf o achosion ac efallai y byddai'r rheithgor yn rhyddfarnu...y dylid caniatáu i'r mater fynd gerbron y rheithgor".

5.27 Er gwaethaf y safbwyntiau hyn, ymhob achos penderfynodd erlynydd y Gangen y dylai'r achos fynd yn ei flaen i dreial.

5.28 Rydym yn cydnabod sensitifrwydd achosion o'r math hwn. Yn aml maent yn cynrychioli materion tystiolaethol anodd a chymhleth. Rydym hefyd yn cydnabod budd y cyhoedd wrth erlyn diffynyddion am droseddau o'r fath. Fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r erlynydd benderfynu bod tystiolaeth ddigonol i gynnig gobaith realistig am gollfarnu y dylid ystyried budd y cyhoedd. Fel arall caiff disgwyliadau dioddefwyr eu codi yn amhriodol ac mae'r diffynnydd yn dioddef misoedd o ansicrwydd. Mae achosion o'r fath hefyd yn oedi achosion eraill.

5.29 Ymhob un o'r achosion a drafodwyd gennym, nid oedd tystiolaeth ddigonol i ddwyn yr achos ymlaen; ac ymhob achos, rhyddfarnwyd y diffynnydd gan y rheithgor. Ni ddylesid caniatáu'r achosion hyn i fynd i dreial. Tra'n cydnabod sensitifrwydd achosion rhywiol, dylai erlynwyr y Gangen, er gwaethaf hyn, ddal i gymhwyso'r profion a nodir yn y Cod bob amser yn eu trefn gywir.

**5.30 Rydym yn argymell y dylai'r BCP sicrhau y cymhwysir y profion tystiolaethol a'r profion budd y cyhoedd yng Nghod Erlynwyr y Goron yn gyson gan erlynwyr wrth adolygu honiadau o droseddau rhywiol.**

## Rhyddfarnau a orchmynnwyd ac a gyfarwyddwyd gan y barnwr

5.31 Yn y 12 mis hyd 30 Mehefin 1998, ni ddygwyd 37 o achosion ymlaen yn Llys y Goron. Cynrychiola hyn 4% o faich achos y Gangen, sy'n llai na hanner y cyfartaledd cenedlaethol o 8.2%. Ataliwyd y mwyafrif helaeth gan y barnwr ar gais yr erlyniad cyn i'r treial ddechrau (rhyddfarnau a orchmynnwyd gan y barnwr).

5.32 Archwiliwyd pum achos o'r fath gennym. Anghytunwyd â'r penderfyniad i ddwyn yr achos ymlaen mewn un ohonynt. Roedd y diffynnydd yn un o ddau a gyhuddwyd o fwrgleriaeth. Daeth yr unig dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd o gyd-droseddwr, nas ategwyd ei fersiwn.

5.33 Yn ystod yr un cyfnod o 12 mis, roedd 11 o achosion pan gyfarwyddodd y barnwr ryddfarn ar ôl i'r treial ddechrau. Cynrychiola hyn 1.2% o faich achos y Gangen, ychydig dros hanner y cyfartaledd cenedlaethol o 2%. Archwiliwyd dwy ryddfarn a gyfarwyddwyd gan y barnwr gennym. Roedd y penderfyniad i ddwyn yr achos ymlaen yn gywir ymhob un, ac roedd yr amgylchiadau yn arwain at y rhyddfarn yn rhai na ellid eu rhagweld.

### Achosion a gollwyd yn y llysoedd ynadon oherwydd y cyflwynwyd dim achos i'w ateb a thraddodebau a ryddhawyd

5.34 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 1998, cofnododd y Gangen 23 o dreialon a wrthodwyd ar ddiwedd achos yr erlyniad yn y llysoedd ynadon. Mae hyn yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (0.2% o'i gymharu â 0.3%). Gofynasom archwilio chwe achos a oedd wedi dod i ben yn ystod cyfnod ein harchwiliad o'r ffeiliau. Fodd bynnag, nid oedd staff y Gangen yn gallu dod o hyd i'r ffeiliau. Yn wir, roedd cryn ansicrwydd am ba rai oedd y ffeiliau perthnasol. Nid yw'n glir a oedd hyn o ganlyniad i wall wrth gofnodi canlyniadau achos yn y PIs, (yr ymdrinnir â hwy ym mharagraffau 5.36-5.40), neu ryw reswm arall. Fodd bynnag, mae'n fater y bydd y BCP am ymchwilio iddo.

5.35 Yn yr un flwyddyn, gwrthodwyd chwe thraddodeb ar ddiwedd achos yr erlyniad, er na ddigwyddodd yr un o'r rhain yn ystod cyfnod ein harchwiliad o'r ffeiliau.

### Dangosyddion perfformiad

5.36 Nododd y sampl o ffeiliau a dderbyniasom gan y Gangen rywfaint o wallau yn y modd y cofnodwyd PIs. Dangosodd PIs y Gangen fod gweithrediadau yn erbyn 113 o ddiffynyddion wedi eu terfynu yn y llysoedd ynadon ym mis Mai 1998. Gofynnwyd i gael gweld yr holl achosion a derbyniwyd 96 o ffeiliau yn cynrychioli 100 o ddiffynyddion. Roedd pedwar ar ddeg o'r ffeiliau wedi cael eu gosod yn y categorïau anghywir. Roedd y diffynnydd wedi cytuno i fod yn rhwym i gadw'r heddwch mewn pum achos; ni ellid dod o hyd iddo mewn chwech; ac mewn dau, roedd wedi pledio'n euog, er i rai mân droseddau eraill gael eu tynnu yn ôl.

5.37 Roedd y PIs ar gyfer y misoedd perthnasol y tynnwyd ein sampl ohonynt yn dangos pedwar o ryddfarnau a orchmynnwyd gan y barnwr. Derbyniwyd pum ffeil, dau ohonynt wedi'u gosod yn y categori anghywir. Roedd un yn rhyddfarn a gyfarwyddwyd gan y barnwr. Yn yr achos arall, rhoddwyd y gorau i'r erlyniad ar ôl i'r diffynnydd gytuno i fod yn rhwym i gadw'r heddwch.

5.38 Yn yr un misoedd, dangosodd PIs y Gangen fod y barnwr wedi cyfarwyddo rhyddfarnu tri diffynnydd. Anfonwyd pum ffeil atom, yr oedd tri ohonynt yn rhyddfarnau a orchmynnwyd gan y barnwr a chanlyniad un oedd rhwymo'r diffynnydd.

5.39 Mae rheolwyr y Gangen yn dibynnu ar PIs i ddarparu gwybodaeth sy'n eu galluogi i fynd i'r afael â materion gwaith achos yn fewnol, a thrafod ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, yn arbennig fel rhan o JPM. Felly, mae'n hanfodol bod PIs yn gywir.

**5.40 Rydym yn argymell y dylai'r BCP sicrhau y cofnodir gwybodaeth gwaith achos yn gywir yn y PIs, fel bod gan reolwyr y Canghennau wybodaeth gywir i'w galluogi i fynd i'r afael â materion gwaith achos.**

### Dull treial

5.41 Cytunwyd ag argymhelliad yr erlynydd ynglŷn ag a ddylid ymdrin â'r achos yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron mewn 43 allan o'r 44 o achosion perthnasol a archwiliwyd gennym. Roedd yr eithriad yn ymwneud ag achos o yrru'n beryglus, y disgrifiodd yr erlynydd y penderfyniad ar y dull o dreial fel un "ffiniol". Mae'n rhaid i erlynwyr bob amser nodi eu barn ar ddull treial, hyd yn oed os yw'r penderfyniad yn debygol o fod yn un cytbwys ond cynnil.

### Mechnïaeth

5.42 Dywedodd cynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill wrthym fod erlynwyr fel arfer yn gwneud penderfyniadau priodol a ddylid ceisio remandio diffynnydd yn y ddalfa neu ar fechnïaeth, er bod rhai ceisiadau yn llai cadarn nag yr oedd yr amgylchiadau yn eu caniatáu.

5.43 Dywedwyd wrthym y gwnaed penderfyniadau yn annibynnol ac nad oeddent bob amser yn unol â sylwadau'r heddlu. Os bydd gan yr erlynydd farn sy'n wahanol i'r heddlu am y cais priodol i'w wneud, yna gwneir ymgais i drafod yr achos gyda'r swyddog sy'n ymchwilio cyn dod i benderfyniad terfynol.

5.44 Gwnaed y penderfyniad priodol a ddylid gwrthwynebu mechnïaeth ymhob un o'r 13 o achosion perthnasol a archwiliwyd gennym.

### Arnodiadau arolwg

5.45 Cofnodir manylion yr arolwg cychwynnol mewn plygell gohebiaeth a atodir i du mewn siaced y ffeil. Mae'r drefn yn caniatáu i'r erlynydd sy'n adolygu'r ffeil nodi'r ffactorau a ystyriwyd ym mhenderfyniad yr arolwg; nodi'r ystyriaethau perthnasol sy'n pennu dull y treial; a thrafod unrhyw faterion achos yn fanylach, er y gellir gadael yr agwedd olaf hon nes y daw arolwg treial diweddarach. Mae'r plygell hefyd yn cynnwys mannau gwag ar gyfer cyfarwyddiadau am wybodaeth ymlaen llaw a'r pecyn adroddiadau cyn-dedfryd i'r Gwasanaeth Prawf. Er nad yw hon yn drefn wedi'i chymeradwyo'n genedlaethol, mae'n hawdd i'w dilyn ac yn fodd i ddod o hyd i wybodaeth allweddol yn gyflym.

5.46 Roedd y rhan fwyaf o'r ffeiliau a archwiliwyd gennym yn cynnwys arnodiad a oedd yn dangos bod yr achos wedi ei ystyried. Fodd bynnag, nid oedd rhai enghreifftiau yn ddefnyddiol, gan nodi'n unig fod y dystiolaeth yn ddigonol a bod erlyniad er fudd y cyhoedd yn unig. Roedd yr erlynydd wedi arnodi materion tystiolaethol mewn 66 o'r 81 o achosion a archwiliwyd gennym (81.5%). Nodwyd ffactorau budd y cyhoedd mewn 67 o achosion (82.7%). Er bod penderfyniadau dull treial yn gyffredinol yn gywir, roeddem yn pryderu mai dim ond mewn 31 o'r 41 o achosion perthnasol (70.5%) y nodwyd yr ystyriaethau perthnasol. Digwyddodd hyn er gwaethaf y ffaith fod erlynwyr wedi nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r arwydd hwn o farn yr adolygwr parthed lleoliad yr achos.

**5.47 Rydym yn argymell y dylai'r BCP sicrhau bod erlynwyr yn arnodi pob ffeil gyda manylion am y ffactorau tystiolaethol a'r ffactorau budd y cyhoedd a ystyriwyd ym mhenderfyniad yr arolwg ac, mewn achosion priodol, ystyriaethau sy'n effeithio ar ddull y treial.**

### Dysgu o brofiad

5.48 Mae'r erlynwyr yn paratoi adroddiadau ar gyfer pob achos a fethodd yn y llysoedd ynadon. Mae gweithwyr achos yn paratoi adroddiadau cyffelyb o ran achosion Llys y Goron. Mae'r erlynydd sy'n adolygu yn gweld yr adroddiadau, sy'n cynnwys manylion am y ffactorau a gyfrannodd at y methiant, yn gyntaf, ac yna'r PTL. Mae'r ddau yn ychwanegu unrhyw sylwadau perthnasol am y ffordd yr ymdriniwyd â'r achos.

5.49 Caiff unrhyw faterion o arwyddocâd penodol, gan gynnwys y rheiny o achosion llwyddiannus, eu trafod mewn cyfarfodydd tîm ac yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli'r Gangen. Roedd erlynwyr a gweithwyr achos yn fodlon eu bod yn cael eu hysbysu am wersi gwaith achos priodol. Dywedasant wrthym hefyd y caiff y rhan fwyaf o achosion eu trafod yn anffurfiol o fewn y swyddfa berthnasol.

5.50 Caiff adroddiadau achosion Llys y Goron eu hanfon at y BCP. Bob mis, mae'r BCP neu'r PTL penodol yn paratoi dadansoddiad o'r achosion a fethodd yn Llys y Goron. Caiff hwn ei dosbarthu i bob PTL a'i anfon at yr heddlu i'w drafod yng nghyfarfodydd y JPM. Fodd bynnag, ni ddosberthir y ddogfen yn fwy cyffredinol o fewn y Gangen er bod un PTL yn sicrhau bod copi ar gael i aelodau'r tîm. Mae'r dadansoddiad misol yn gyfrwng defnyddiol i ddysgu gwersi gwaith achos priodol a dylid ei ddosbarthu'n ehangach.

**5.51 Rydym yn argymell y dylai'r BCP sicrhau bod dadansoddiad misol o'r achosion a fethodd yn Llys y Goron ar gael i bob erlynydd a gweithiwr achos, fel y gellir dysgu gwersi gwaith achos priodol.**

## PARATOI ACHOSION

### Gwybodaeth ymlaen llaw

6.1 Darparwyd gwybodaeth ymlaen llaw yn brydlon mewn 53 o'r 56 o achosion perthnasol.

6.2 Cofnodir cyfarwyddiadau ar gyfer paratoi gwybodaeth ymlaen llaw yn y plygell gohebiaeth yn ystod yr arolwg cychwynnol. Bydd gweithwyr achos

yn paratoi'r pecyn datgelu, a gyflwynir i'r amddiffyniad, os derbynnir cais. Fel arall, bydd yn aros ar y ffeil nes y gwneir cais, neu tan yr ymddangosiad cyntaf yn y llys.

6.3 Yn ddiweddar adolygodd y Gangen ei pholisi tuag at ddarparu gwybodaeth ymlaen llaw mewn achosion diannod, pan na fydd y gyfraith yn mynnu datgelu, er mwyn sicrhau ymagwedd fwy cyson. Dylid datgelu gwybodaeth:

- os y gellir carcharu am y drosedd;
- os ceir materion ffeithiau neu gyfraith cymhleth;
- os yw'r diffynnydd yn ddiamddiffyn; neu
- os bydd datgelu yn cynorthwyo wrth baratoi'r treial, drwy egluro materion, neu y gallai achosi newid o ran ple.

6.4 Teimlir yn y Gangen ac ymhlith rhai asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill y darperir datgelu gwirfoddol yn llai aml. Fodd bynnag, mae'r polisi yn caniatáu disgresiwn i erlynwyr ddatgelu, a dywedwyd wrthym y bydd rhyw fath o ar ddatgelu yn parhau i gael ei ddarparu, er mwyn cynorthwyo â chynnydd achosion unigol.

## Deunydd nas defnyddwyd a deunydd o natur sensitif

6.5 Mae pob erlynydd a gweithiwr achos yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ddatgelu deunydd nas defnyddwyd yn unol â darpariaethau Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996. Cafodd staff y Gangen hyfforddiant cychwynnol ychwanegol mewn seminarau diweddar, a gynhaliwyd ar y cyd â'r heddlu, gan brofi sut y gellid cymhwyso'r Ddeddf mewn modd ymarferol.

6.6 Gwelwyd bod erlynwyr yn cydymffurfio â'u hymrwymiadau i ddatgelu deunydd nas defnyddiwyd yn brydlon mewn 55 o'r 56 o achosion perthnasol. Roedd yr un eithriad yn ymwneud â threial mewn llys ynadon, ond, yn gyffredinol nid oes gennym unrhyw bryderon yn y maes hwn.

6.7 Archwiliwyd pum achos gennym a oedd yn ymwneud â deunydd sensitif. Dilynwyd y gweithdrefnau cywir mewn pedwar ohonynt. Yn y pumed achos, ni chwblhawyd y rhestr o ddeunydd sensitif gan yr erlynydd, ac nid oedd unrhyw arwydd arall ei fod wedi cael ei ystyried. Fodd bynnag, ymhob cyswllt arall, roeddem yn fodlon yr ymdriniwyd â deunydd sensitif yn gywir; cedwir unrhyw ddeunydd a ddelir yn y swyddfa yn ddiogel.

6.8 Fodd bynnag, dywedodd erlynwyr y Gangen a chynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill nad oeddent yn hyderus bod pob deunydd perthnasol wedi ei ddatgelu gan yr heddlu ymhob achos. Dywedwyd wrthym am achosion pan y bu'n rhaid ymholi'r heddlu ymhellach, gan fod yr amgylchiadau yn awgrymu nad oedd deunydd penodol wedi'i ddatgelu. Mynegodd yr heddlu eu hunain yr un pryderon gan gyfeirio at broblemau gyda gweithdrefnau mewnol a hyfforddi swyddogion. Mae rheolwyr y Gangen a'r heddlu wedi trafod y mater yn y gorffennol, ond mae'r pryderon yn parhau. Maent yn cydnabod bod y mater yn un pwysig y mae angen ei ddatrys cyn gynted â phosibl.

**6.9 Rydym yn argymell y dylai'r BCP gymryd camau brys i fynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â rhwymedigaeth yr heddlu i ddatgelu'r holl ddeunydd perthnasol nas defnyddiwyd, drwy drafod materion gweithredol gyda'r heddlu a, lle y bo'n briodol, drwy gynnal mentrau hyfforddi ar y cyd.**

## Terfynau amser yn y ddalfa

6.10 Mae darpariaethau terfyn amser yn y ddalfa yn rheoleiddio hyd yr amser y gellir cadw person a gyhuddir yn y ddalfa yn ystod camau cychwynnol achos. Gall methu â monitro'r terfynau amser, a, lle y bo'n briodol, wneud cais i'w hestyn, olygu y gellid rhyddhau diffynnydd ar fechnïaeth y dylid ei gadw fel arall yn y ddalfa.

6.11 Caiff terfynau amser yn y ddalfa eu monitro â llaw. Mae dwy swyddfa yn defnyddio system ddyddiadur a'r drydedd yn defnyddio taflen gofnodi. Roedd gwahaniaethau yn y modd a ddefnyddir i gyfrifo dyddiadau terfyn. Defnyddiodd dwy swyddfa lyfr cyfrifo a gyhoeddir yn genedlaethol, a defnyddiodd y llall galendr.

6.12 Er y cyfrifwyd y dyddiadau terfyn yn gywir a'u harddangos yn glir ar flaen y ffeil ymhob un o'r deg achos a archwiliwyd gennym, roedd gwallau wrth gymhwyso'r system fonitro. Nodwyd dyddiad yr arolwg ar y ffeil mewn un achos yn y llys ynadon yn unig a dau achos yn Llys y Goron. Yn ogystal, ni chofnodwyd manylion un achos yn y system fonitro, ac, mewn tri achos pellach, pan ddyfarnwyd estyniad i'r terfyn amser yn y ddalfa, ni welwyd unrhyw gofnod o'r dyddiad newydd. Mewn pedwerydd achos, nid oedd yr erlynydd wedi arnodi'r dyddiad terfyn newydd yn y ffeil. Nodwyd gennym hefyd wall mewn achos y tu allan i'n sampl. Roedd y terfyn amser yn y ddalfa wedi'i ailgyfrifo yn anghywir, ar ôl i'r diffynnydd dreulio cryn amser ar fechnïaeth.

6.13 Archwiliwyd dau achos gennym lle y cyflwynwyd cyhuddiad newydd i'r diffynnydd. Mae pob cyhuddiad yn denu terfyn amser ar wahân yn y ddalfa. Mewn un achos, nid oedd y cyhuddiad newydd wedi derbyn dyddiad terfyn ar wahân. Yn yr achos arall, er y cofnodwyd terfyn amser ar wahân ar gyfer y cyhuddiad newydd, roedd staff y Gangen wedi caniatáu i'r terfyn amser yn y ddalfa ddod i ben ar y cyhuddiad cynt, gan ddibynnu, yn ôl pob golwg, ar y terfyn amser ar y cyhuddiad diweddarach i gadw'r diffynnydd yn y ddalfa. Mae gan yr arfer risgiau cynhenid.

6.14 Y terfyn amser yn y ddalfa ar gyfer troseddau naill ffordd neu dditiadiol yn y llysoedd ynadon yw 70 diwrnod. Os bydd y diffynnydd yn cydsynio i dreial diannod mewn perthynas â throsedd naill ffordd ac yn pledio'n ddieuog cyn i 56 diwrnod fynd heibio, y terfyn amser priodol yw 56 diwrnod. Rhaid gwneud cais am estyniad ar gyfer gohiriad y tu hwnt i'r amser hwnnw. Fodd bynnag, os bydd 56 diwrnod eisoes wedi mynd heibio cyn i'r dull treial gael ei bennu, erys y terfyn amser yn y ddalfa yn 70 diwrnod.

6.15 Mewn dau achos a archwiliwyd gennym, gwnaed ceisiadau i estyn y terfyn amser yn y ddalfa i 70 diwrnod cyn pennu dull y treial. Ni ddaethpwyd i'r afael â'r mater o leoliad nes ar ôl i'r 56 diwrnod fynd heibio. Caiff hysbysiadau am gais i estyn terfyn amser yn y ddalfa eu drafftio a'u cyflwyno yn awtomatig gan y gweithiwr achos sy'n gyfrifol am fonitro dyddiadau arolwg. Fodd bynnag, dylai'r erlynydd ystyried a yw'n angenrheidiol gwneud cais mewn achosion unigol. Yn wir, dechreuwyd un cais gan yr erlynydd yn y llys.

6.16 Mewn un achos yn Llys y Goron, gwnaed cais i estyn terfyn amser yn y ddalfa i ddyddiad a oedd chwe wythnos cyn y dyddiad terfyn gwirioneddol. Nid oedd unrhyw esboniad ar y ffeil o'r rheswm pam y gwnaed y cais.

6.17 Gwelwyd tair ffeil lle roedd yr erlynydd wedi gwneud cais i estyn y dyddiad terfyn i'r diwrnod yn dilyn yr ymddangosiad dilynol yn y llys. Er nad yw hyn yn anghywir, rydym yn pryderu bod hyn wedi ei wneud gan fod ansicrwydd a oedd y terfyn amser yn y ddalfa yn dod i ben ar ddechrau neu ddiwedd y diwrnod terfyn.

6.18 Yn y 12 mis hyd 30 Mehefin 1998, gorfu'r llysoedd ryddhau un diffynnydd yn unig am fod terfyn amser yn y ddalfa wedi dod i ben, heb i'r erlyniad wneud cais am estyniad. Roedd yr hysbysiad angenrheidiol o fwriad i wneud cais wedi ei gyflwyno ar amser, ond ni chyflwynodd yr erlynydd yn y llys y cais. Efallai mai gwall ar ei ben ei hun oedd hwn, ond rydym yn parhau'n bryderus am y diffyg dealltwriaeth o reolau a gweithdrefnau terfyn amser yn y ddalfa a ddisgrifir yn y paragraffau uchod. Mae angen ystyriaeth frys ar yr agweddau hyn.

**6.19 Rydym yn argymell y dylai'r BCP sicrhau bod pob aelod o staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y rheoliadau terfyn amser yn y ddalfa a gweithdrefnau terfynau amser yn nalfa'r Gangen, drwy ddarparu hyfforddiant priodol, a ddylai hefyd atgyfnerthu'r safon genedlaethol ar arnodiadau ffeiliau cysylltiedig.**

## Paratoi treialon diannod

6.20 Caiff treialon yn y llysoedd ynadon eu paratoi'n dda. Cymerwyd camau prydlon i rybuddio tystion ymhob un o'r 30 o achosion a archwiliwyd gennym.

6.21 Mae Adran 9, Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967 yn caniatáu i ddatganiadau tystion gael eu darllen yn y llys heb eu presenoldeb, os cyflwynir copi o'r datganiad i'r amddiffyniad ymlaen llaw, ac os nad amheuir y dystiolaeth. Cyflwynwyd y datganiadau priodol yn brydlon ymhob un o'r 25 o dreialon perthnasol.

6.22 Dywedwyd wrthym y gallai erlynwyr wneud gwell defnydd o adran 10, Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, sy'n caniatáu i'r erlyniad a'r amddiffyniad gytuno ar rai ffeithiau heb alw am dystiolaeth. Er y defnyddiwyd y darpariaethau o bryd i'w gilydd, roedd y cyhoeddiad fel arfer yn digwydd ar ddiwrnod y treial, er y gellid bod wedi achub ar y cyfle'n gynt. Nid arsylwyd ar unrhyw enghreifftiau amlwg o fethiant i ddefnyddio'r darpariaethau, ond bydd rheolwyr y Gangen yn dymuno sicrhau yr ystyrir eu defnyddio ymhob achos priodol.

6.23 Mae erlynwyr yn ymwybodol o ddarpariaethau adran 23, Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 sydd, yn ddarostyngedig i amodau penodol, yn caniatáu i'r erlyniad ddarllen datganiad tyst sy'n rhy ofnus neu'n rhy sâl i fynychu'r llys. Fodd bynnag, dywedodd erlynwyr wrthym nad oedd llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r darpariaethau.

6.24 Mae erlynwyr yn paratoi treialon gan ddefnyddio "Ffurflen Cyfarwyddiadau Treial". Mae'n cynnwys manylion am y tystion a rybuddir i fynychu'r llys a'r rheiny y gellir cyflwyno eu datganiadau yn unol ag adran 9. Mae adran hefyd ar gyfer cyfarwyddiadau ar gyfer deunydd nas defnyddwyd a man gwag ar gyfer trafod materion yr achos. Roedd yr enghreifftiau a welwyd gennym yn darparu tystiolaeth o arolygu trwyadl. Roedd y rhan fwyaf yn cynnwys llythyr at yr heddlu yn ymdrin ag unrhyw faterion dros ben.

6.25 Yn ddieithriad cynhelir PTRs ar gyfer treialon diannod. Mae rhai PTLs yn ymdrin â PTRs eu hunain fel modd i fonitro ansawdd yr arolwg a'r gwaith o baratoi'r treial. Mae fformat y PTRs yn gwahaniaethu a bu pryderon nad oedd rhai ohonynt yn effeithiol. Mae rhai yn gyfystyr â chyfle i bennu dyddiad treial yn unig, tra bod eraill yn ymchwilio i faterion achos yn fanwl.

6.26 Yn ddiweddar cynhaliodd Pwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru arolwg i'r rhesymau dros dreialon sy'n methu, o ganlyniad i'w bryder fod cyfradd achosion o'r fath yng Ngogledd Cymru yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Datgelodd yr arolwg amheuaeth o ran effeithiolrwydd rhai PTRs. Cadarnhaodd fodd bynnag, fel y dywedwyd wrthym, mai'r rhai mwyaf llwyddiannus yw'r rhai lle y mae'r gweithrediadau ar ffurf ymchwiliad gan y clerc i faterion y treial. Arsylwyd rhai enghreifftiau o hyn. Ymdriniwyd â hwy yn effeithlon, gyda phob parti yn cyfrannu at drafodaeth o'r materion. Fe'n trawyd gan fanylder yr arolwg, sydd wedi peri gostyngiad o 59% i 50% yn y treialon sy'n methu.

6.27 Cydnabu'r arolwg hefyd rôl allweddol y CPS wrth gynnal PTRs gan awgrymu y dylid cynnal trafodaethau rhwng y llysoedd a'r Gangen i wella materion. Byddai hyn yn amlwg yn ddymunol, ond awgrymwn y dylai unrhyw drafodaethau gynnwys pawb sy'n defnyddio'r llysoedd.

**6.28 Rydym yn argymell y dylai'r BCP gymryd camau, mewn cydweithrediad â defnyddwyr eraill y llys, i sicrhau bod arolygon cyn treial (PTRs) yn effeithiol, drwy sefydlu ymagwedd gyson lle caiff y materion treial eu harchwilio'n llawn gan bob parti.**

### Paratoi traddodebau

6.29 Caiff y mwyafrif o'r traddodebau eu paratoi gan weithwyr achos. Gosododd y Gangen darged o 100% o baratoi traddodebau gan weithwyr achos, ond gall erlynydd ymdrin â thraddodebau brys, os bydd y gweithiwr achos penodedig yn y llys. Caiff y ffurflen paratoi traddodeb ei gwirio gan yr erlynydd, a all, mewn rhai achosion, ddrafftio crynodeb a ditiad o'r achos.

6.30 Archwiliwyd 31 o draddodebau gennym. Roedd y tystion a'r arddangosion wedi eu nodi'n gywir ymhob achos.

6.31 Er y cyflwynir papurau fel arfer rai diwrnodau cyn gwrandawiad y draddodeb, cyflwynir rhai yn hwyr, hyd yn oed ar ddiwrnod y gwrandawiad, gan beri i'r achos gael ei ohirio. Dengys ffigurau'r Gangen ar

gyfer y tri mis a ddaeth i ben 30 Mehefin 1998 y cyflwynwyd papurau o fewn amserlenni targed y CPS mewn 57.1% o achosion. Fe'u cyflwynwyd yn brydlon mewn 25 o'r 31 o achosion (80.6%) a archwiliwyd gennym.

6.32 Gall prydlondeb ac ansawdd ffeiliau'r heddlu effeithio ar gyflwyno papurau traddodeb yn brydlon. Dengys ffigurau JPM ar gyfer Ionawr i Fawrth 1998 mai dim ond 41.1% o ffeiliau traddodeb a dderbyniwyd gan yr heddlu o fewn yr amserlenni cytunedig, ac a oedd hefyd yn gwbl foddhaol neu'n ddigonol i ddwyn achos ymlaen.

6.33 Paratoir traddodebau gan ddefnyddio Pecyn Paratoi Achos Llys y Goron y CPS. Mae hwn yn cynhyrchu cyfres o baragraffau safonol, gydag opsiynau testun rhydd ar gyfer cyfarwyddiadau i'r bargyfreithiwr. Dywedwyd wrthym mai ychydig o ddefnydd a wna staff y Gangen o'r testun rhydd i ddarparu gwybodaeth am amgylchiadau achosion unigol.

6.34 Gellir gwella ar ansawdd y cyfarwyddiadau i'r bargyfreithiwr, er yr arsylwyd rhywfaint o enghreifftiau da gennym, gyda chrynodebau achos wedi'u paratoi'n dda a oedd yn cynnwys trafodaeth lawn o'r materion. Fodd bynnag, ystyriwyd bod safon y cyfarwyddiadau mewn 13 o'r 31 o achosion a archwiliwyd gennym yn llai na derbyniol. Dim ond 21 ohonynt oedd yn cynnwys crynodeb achos ac nid oedd rhai o'r rheiny yn ddefnyddiol iawn. Dim ond mewn pedwar o'r deg o achosion perthnasol y rhoddwyd cyfarwyddiadau priodol am dderbynioldeb pledion. Dywedwyd wrthym fod erlynwyr yn aml yn nodi eu meddyliau am bledion derbyniol wrth adolygu achosion. Ni throsglwyddwyd y rhain bob amser i gyfarwyddiadau'r bargyfreithiwr.

6.35 Mae erlynwyr yn gyfrifol am wirio cyfarwyddiadau, unwaith iddynt gael eu teipio. Yn ogystal, caiff sampl o gyfarwyddiadau a baratowyd gan bob erlynydd a gweithiwr achos ei fonitro'n ffurfiol ar gyfer ansawdd gan BCP, PTLs a'r uwch weithiwr achos. Fodd bynnag, nodwyd rhai enghreifftiau o gyfarwyddiadau a oedd yn cynnwys gwallau teipio amlwg y dylai'r broses wirio fod wedi eu cywiro. Roedd un gyfres o gyfarwyddiadau yn cyfeirio at gyfaddefiadau a wnaed gan ddiffynnydd nad oedd, mewn gwirionedd, wedi siarad yn ystod ei gyfweliad.

**6.36 Rydym yn argymell y dylai'r BCP gymryd camau i wella ansawdd y cyfarwyddiadau i'r bargyfreithiwr, drwy:**

- **sicrhau eu bod yn cynnwys crynodeb digonol o'r honiadau a'r materion yn yr achos, gan gynnwys derbynioldeb pledion; a**
- **sicrhau y cânt eu gwirio cyn eu cyflwyno i'r bargyfreithiwr.**

## Ansawdd ditiadiau

6.37 Caiff ditiadiau eu drafftio gan y gweithiwr achos neu'r erlynydd sy'n paratoi'r draddodeb. Mewn achosion cymhleth, bydd y gweithiwr achos yn gofyn i'r erlynwyr ddrafftio'r ditiadau. Nid oedd gan gynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill unrhyw bryderon difrifol am ansawdd ditiadiau, er bod angen newid rhai ohonynt er mwyn cywiro mân wallau.

6.38 Newidiwyd y ditiad mewn saith allan o'r 31 o achosion a archwiliwyd gennym. Dim ond mewn un achos yr oedd hyn o ganlyniad i baratoi achos gwael. Newidiwyd cyhuddiad o drais i honiad o ymgais, am nad oedd y dystiolaeth fod treiddiad wedi digwydd yn amhendant. Roedd yr erlynydd wedi cyflwyno sylwadau am hyn yn ystod yr arolwg cychwynnol, ond ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu.

6.39 Er na fynegwyd unrhyw bryderon am brydlondeb cyflwyno ditiadiau i Lys y Goron, nid oedd yn bosibl i ni nodi mewn 17 o'r achosion a archwiliwyd gennym a oedd y ditiad wedi'i gyflwyno. Fel arfer roedd siaced y ffeil yn nodi'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno'r ditiad, ond yn anaml roedd yn cofnodi pa bryd, mewn gwirionedd, y'i cyflwynwyd i'r llys. Bydd y BCP yn dymuno atgoffa ei staff y dylid cadw cofnod ar y ffeil bob amser, gan nodi pryd y cyflwynwyd y ditiad.

## Y CPS yn Llys y Goron

6.40 Traddodir achosion y Gangen i Lys y Goron sy'n cael ei gynnal yng Nghaernarfon neu'r Wyddgrug. Mae un gweithiwr achos yn cwmpasu'r ddwy ystafell lys yn yr Wyddgrug. Dim ond un llys sydd yng Nghaernarfon. Trosglwyddir rhai achosion ar gyfer gwrandawiad yng Nghaer. Yn yr amgylchiadau hyn, gall gweithiwr achos o'r Gangen fynychu, os bydd yr achos yn arbennig o ddifrifol neu gymhleth. Fel arall, cwmpesir achosion gan weithwyr achos o'r Gangen leol.

6.41 Ymdrinnir â Gwrandawiadau Ple a Chyfarwyddiadau (PDHs) yng Nghaernarfon ac yn yr Wyddgrug. Bydd uwch erlynydd o'r Gangen yn bresennol yn ogystal â gweithiwr achos. Ymdrinia'r erlynydd â materion sy'n codi mewn achosion unigol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar gynigion pledion. Cyflwynwyd sylwadau ffafriol ar yr arfer hwn gan gynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, am ei fod yn galluogi i achosion ddatblygu'n fwy cyflym. Croesawodd Erlynwyr y Gangen y cyswllt cynyddol â'r bargyfreithiwr a barnwyr.

6.42 Dywedwyd wrthym bod achosion fel arfer yn barod i dreial yn y PDH. Mae gan bob ffeil restr wirio wedi'i hatodi. Yr erlynydd sy'n adolygu sy'n gyfrifol am wirio'r ffeil saith diwrnod cyn PDH, er mwyn sicrhau bod yr holl waith angenrheidiol wedi'i gwblhau.

6.43 Dywedwyd wrthym y cydymffurfir â'r cyfarwyddiadau a roddir yn PDHs fel arfer yn brydlon. Os bu oedi, fel arfer roedd rheswm da a hysbyswyd y llys mewn da bryd. Archwiliwyd 15 o achosion gennym lle y rhoddwyd cyfarwyddiadau penodol mewn PDH. Cydymffurfiwyd â hwy yn brydlon ymhob achos.

6.44 Pery erlynwyr i gymryd rhan yn eu hachosion ar ôl traddodeb. Ymdrinia gweithwyr achos â rheolaeth achosion o ddydd i ddydd, ond ymdrinia erlynwyr â gohebiaeth a gwnânt benderfyniadau ar dystiolaeth bellach. Pryd bynnag y bydd traddodebau yn caniatáu hynny, gwneir trefniadau i erlynwyr fynychu Llys y Goron yn ystod camau arwyddocaol eu hachosion mwy difrifol, os bydd eu presenoldeb yn cynorthwyo â chynnydd achos. Er bod daearyddiaeth y Gangen yn golygu y gall erlynwyr rhai swyddfeydd fynychu Llys y Goron yn haws yn yr amgylchiadau hyn (a mynychu PDHs), mae ymdrechion ar y gweill i sicrhau bod y cyfle ar gael i bob erlynydd.

6.45 Rydym yn cefnogi ymdrech y BCP wrth geisio cynnwys ei erlynwyr fwy yng ngwaith Llys y Goron. Dylai gwell ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd yn Llys y Goron gael effaith fuddiol ar ansawdd gwneud penderfyniadau ymhob achos.

## Arnodiadau ffeiliau

6.46 Roedd arnodiadau llys yn ffeiliau y llysoedd ynadon wedi'u cofnodi'n glir ac yn ddarllenadwy gan ddangos cofnod cynhwysfawr o gynnydd achos mewn 74 allan o'r 81 o achosion a archwiliwyd gennym. Roedd pob un o 31 o ffeiliau Llys y Goron yn cydymffurfio â safon y CPS ar arnodiadau ffeiliau.

6.47 Yn ôl ein profiad, mae'r ffigurau hyn yn dda iawn. Mae arnodiadau o ansawdd da yn caniatáu i ddarllenwyr dilynol y ffeil ddod o hyd i'r hyn sydd wedi digwydd yn union mewn achos, er mwyn dilyn ei gynnydd.

6.48 Roedd y rhan fwyaf o ffeiliau yn gyffredinol wedi eu cynnal yn y drefn gywir, er y cawsom rywfaint o anhawster wrth geisio dod o hyd i ddogfennau yn rhai o'r achosion mwy cymhleth. Roedd gohebiaeth yn achosion llysoedd ynadon wedi'i lleoli yn gyfleus o fewn y plygell gohebiaeth. Mabwysiadwyd system gyffelyb mewn perthynas â gohebiaeth Llys y Goron.

## CYFLWYNO ACHOSION YN Y LLYS

7.1 Cytunodd cynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill fod safon gyffredinol yr eiriolaeth yn dda. Yn gyffredinol cyflwynwyd achosion yn fedrus ac yn broffesiynol gan eiriolwyr a oedd â gwybodaeth dda am y ffeithiau. Dywedwyd wrthym

fod yr eiriolwyr yn hyderus a'u bod yn dangos ymroddiad. Disgrifiwyd eiriolwyr fel da ond teg wrth groesholi. Cadarnhaodd ein harsylwadau yn y llys y farn hon. Ymdriniodd eiriolwyr y Gangen hefyd â cheisiadau am fechnïaeth yn Llys y Goron yn broffesiynol ac fe'u paratowyd yn dda. Caiff safon eiriolaeth pob erlynydd ei monitro'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn.

7.2 Mynegwyd rhywfaint o bryder o fewn y Gangen a chan gynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill nad oedd bob amser yn bosibl rhoi gwybod i'r bargyfreithiwr am brofiad digonol mewn achosion penodol. Mae'r Gangen yn rhoi cyfarwyddyd i'r bargyfreithiwr o siambrau yng Nghaer. Cyfyngodd penodiadau cyfreithiol diweddar a phenodiadau uwch fargyfreithwyr fel Cwnsleriaid y Frenhines ar nifer y bargyfreithiwr profiadol ar gyfer yr achosion mwy difrifol. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd llawer o fargyfreithwyr yn barod i deithio o Gaer i Gaernarfon i ymdrin, er enghraifft, ag un PDH. Cynyddodd hyn nifer yr achosion pan newidiwyd y bargyfreithiwr weithiau. Dim ond mewn 11 o'r 28 o achosion Llys y Goron (39.3%) a archwiliwyd gennym yr oedd y bargyfreithiwr a gyfarwyddwyd yn wreiddiol yn bresennol yn y PDH. Mynychodd y bargyfreithiwr gwreiddiol y treial mewn naw o 19 o achosion priodol (47.4%). Nid ymdriniwyd ag unrhyw un o'r chwe PDH a welwyd gennym yn Llys y Goron yn yr Wyddgrug gan y bargyfreithiwr a gyfarwyddwyd yn wreiddiol yn yr achos. Rydym yn cydnabod y cyfyngiadau a osodir arnom gan argaeledd bargyfreithwyr lleol, ond mae hwn yn fater sy'n mynnu sylw.

**7.3 Rydym yn argymell y dylai'r BCP geisio gwella canran yr achosion lle mae'r bargyfreithiwr a gyfarwyddwyd yn wreiddiol yn mynychu'r PDH a'r treial.**

7.4 Nid oes gan y Gangen unrhyw system ffurfiol ar gyfer monitro'r bargyfreithiwr. Mae'r gweithwyr achos a'r erlynwyr sy'n mynychu Llys y Goron yn monitro'r bargyfreithiwr yn anffurfiol ac yn trafod perfformiad o fewn y swyddfa.

## Y GANGEN AC ASIANTAETHAU ERAILL

8.1 Mae'r perthnasau ag asiantaethau eraill yn y system cyfiawnder troseddol yn broffesiynol, yn adeiladol ac yn gyfeillgar. Mae'r BCP yn mynychu nifer o grwpiau cyswllt ffurfiol, gan gynnwys uwch gynrychiolwyr asiantaethau eraill, sy'n trafod ystod o faterion. Mae PTLs yn mynychu cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr y llysoedd ynadon ac maent yn cysylltu â'r heddlu ar lefel ranbarthol. Maent hefyd yn mynychu grwpiau cyswllt eraill sy'n ymdrin â materion penodol, megis cam-drin plant.

8.2 Mesur o effeithiolrwydd cyswllt yw nifer y cytundebau lefel gwasanaeth sydd wedi'u trefnu gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill er mwyn mynd i'r afael ag agweddau ar berfformiad ar y cyd. Cyfeiriwyd eisoes, ym mharagraff 4.5, at y cytundeb gyda'r heddlu ar achosion cyngor ac, ym mharagraff 5.6, at y cynlluniau rhyddhau ffeiliau yn Wrecsam, y Fflint, Llangefni a Chaergybi, sydd hefyd yn cael eu rheoli yn unol â chytundeb lefel gwasanaeth. Mae'r Gangen hefyd wrthi yn trefnu cytundeb gyda Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru a fydd mynd i'r afael â darparu gwybodaeth ar gyfer adroddiadau cyn dedfryd a chyflenwi adroddiadau i'r CPS, yn ogystal â chyfrifoldebau ar y cyd o ran gweithrediadau ar gyfer torri gorchmynion prawf.

8.3 Mae'n bleser gennym nodi i ba raddau y mae rheolwyr y Gangen yn chwarae rhan lawn a gweithredol wrth ddatblygu gweithdrefnau mwy effeithlon gyda'r asiantaethau perthnasol. Dylai'r rhain ganiatáu i achosion ddatblygu'n fwy llyfn ac yn gyflymach er budd pawb.

8.4 Er nad oes gan y Gangen unrhyw gysyllt ffurfiol â Gwasanaeth Tystion Llys y Goron, grwpiau asiantaethau cyfiawnder troseddol ehangach allanol, sefydlwyd gweithdrefnau yn ddiweddar i wella'r broses o ddarparu gwybodaeth am dystion i wirfoddolwyr lleol.

## YSTADEGAU ALLWEDDOL


9.1 Mae'r siartiau sy'n dilyn y dudalen hon yn nodi'r ystadegau allweddol am waith achos y Gangen yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 1998.

## YMGYNGHORI ALLANOL

10.1 Ar dudalen 20, ceir rhestr o gynrychiolwyr lleol yr asiantaethau troseddol hynny a fu'n cynorthwyo yn ein harolygiad.

# Y LLYSOEDD YNADON


## 1 - Mathau o achos





| | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyngor | 1,026 | 5.5 | 57,687 | 4.1 |
| Moduro diannod | 5,035 | 28.5 | 532,242 | 37.4 |
| Heb fod yn foduro diannod | 4,331 | 24.5 | 259,538 | 18.2 |
| Naill ffordd a ditiadwy | 7,272 | 41.1 | 562,574 | 39.5 |
| Gweithrediadau eraill | 9 | 0.1 | 11,378 | 0.8 |
| **Cyfanswm** | **17,673** | **100** | **1,423,419** | **100** |

## 2 - Achosion wedi'u cwblhau

| | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Gwrandawiadau | 12,968 | 77.9 | 972,907 | 71.8 |
| Terfyniadau | 1,822 | 11.0 | 163,059 | 12.0 |
| Traddodebau | 864 | 5.2 | 101,373 | 7.5 |
| Gwaredion eraill | 984 | 5.9 | 117,033 | 8.6 |
| **Cyfanswm** | **16,638** | **100** | **1,354,372** | **100** |




## 3 - Canlyniadau achos





| | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Pledion euog | 11,034 | 84.8 | 793,895 | 81.2 |
| Prawf mewn absenoldeb | 1,074 | 8.3 | 113,299 | 11.6 |
| Collfarnau ar ôl treial | 628 | 4.8 | 52,025 | 5.3 |
| Rhyddfarnau: ar ôl treial | 249 | 1.9 | 15,595 | 1.6 |
| Rhyddfarnau: dim achos i'w ateb | 23 | 0.2 | 2,557 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **13,008** | **100** | **977,371** | **100** |


# LLYS Y GORON

## 4 - Mathau o achos

| | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Ditiadwy yn unig | 223 | 19.3 | 27,450 | 21.4 |
| Naill ffordd: penderfyniad yr amddiffyniad | 63 | 5.4 | 20,677 | 16.1 |
| Naill ffordd: cyfarwyddyd yr ynadon | 628 | 54.3 | 53,634 | 41.8 |
| Diannod: apeliadau; traddodebau i ddedfrydu | 243 | 21.0 | 26,437 | 20.6 |
| **Cyfanswm** | **1,157** | **100** | **128,198** | **100** |





## 5 - Achosion wedi'u cwblhau




| | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Treialon (gan gynnwys pledion euog) | 872 | 95.3 | 90,596 | 89.0 |
| Achosion na ddygwyd ymlaen | 37 | 4.0 | 8,359 | 8.2 |
| Wedi'u rhwymo | 5 | 0.5 | 1,519 | 1.5 |
| Gwaredion eraill | 1 | 0.1 | 1,307 | 1.3 |
| **Cyfanswm** | **915** | **100** | **101,781** | **100** |

## 6 - Canlyniadau achos

| | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Pledion euog | 750 | 84.6 | 70,380 | 76.0 |
| Collfarnau ar ôl treial | 78 | 8.8 | 13,094 | 14.1 |
| Rhyddfarnau rheithgor | 48 | 5.4 | 7,184 | 7.8 |
| Rhyddfarnau a gyfarwyddwyd gan y barnwr | 11 | 1.2 | 1,891 | 2.0 |
| **Cyfanswm** | **887** | **100** | **92,549** | **100** |



## RHESTR O GYNRYCHIOLWYR ASIANTAETHAU CYFIAWNDER TROSEDDOL LLEOL A FU'N CYNORTHWYO YN EIN HAROLYGIAD

| | |
|---|---|
| **Y Barnwr** | Ei Anrhydedd Y Barnwr Edwards |
| **Y Llysoedd Ynadon** | Mr J Anderson, OBE, Ynad Heddwch a Chadeirydd Pwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru<br>Mr J Humphries, Ynad Heddwch a Chadeirydd Ynadon Sir y Fflint<br>Mr I Jones, Ynad Heddwch a Chadeirydd Ynadon Aberconwy<br>Mr D Williams, Ynad Heddwch a Chadeirydd Ynadon Rhuddlan<br>Mr J Jones, Prif Weithredwr yr Ynadon<br>Mr I Thomas, Clerc Ynadon Gogledd Cymru, Clerciaeth y Gorllewin<br>Miss S Jones, Dirprwy Glerc Ynadon Gogledd Cymru, Clerciaeth y Dwyrain |
| **Yr Heddlu** | Dirprwy Brif Gwnstabl J Owen<br>Yr Uwcharolygydd J Williams<br>Yr Arolygydd T Bell |
| **Cyfreithiwr yr amddiffyniad** | Mr S Alis |
| **Bargyfreithwyr** | Mr M Lewis-Jones<br>Mr P Moss |
| **Y Gwasanaeth Prawf** | Mrs C Moore, Prif Swyddog Prawf |
| **Gwasanaeth Tystion** | Mrs G Lewis, Cydlynydd, Gwasanaeth Tystion Llys Caernarfon |

## AROLYGIAETH GWASANAETH ERLYN Y GORON

Datganiad o bwrpas

Hyrwyddo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Gwasanaeth Erlyn y Goron drwy broses o arolygu a gwerthuso; darparu cyngor; a nodi a hyrwyddo arfer da.

### NODAU

1 Arolygu a gwerthuso ansawdd penderfyniadau gwaith achos ac ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau gwaith achos yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron.

2 Cyflwyno adroddiadau ar sut yr ymdrinnir â gwaith achos yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron mewn ffordd sy'n annog gwelliannau yn ansawdd y gwaith achos hwnnw.

3 Cynnal arolygon ar wahân o destunau penodol sy'n effeithio ar waith achos neu'r broses gwaith achos. Gelwir y rhain yn arolygon thematig.

4 Rhoi cyngor i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar ansawdd penderfyniadau gwaith achos a phrosesau gwneud penderfyniadau gwaith achos Gwasanaeth Erlyn y Goron.

5 Argymell sut i wella ansawdd gwaith achos Gwasanaeth Erlyn y Goron.

6 Nodi a hyrwyddo arfer da.

7 Gweithio gydag arolygiaethau eraill i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol.

8 Hyrwyddo ymwybyddiaeth pobl ohonom drwy'r system cyfiawnder troseddol fel y gallant ymddiried yn ein canfyddiadau.